Diweddariadaur wythnos o WCVA

29 Mai 2019

Helo a chroeso i'r cylchlythyr wythnos yma.

Dim ond 2 ddiwrnod sydd i fynd tan Wythnos Gwirfoddolwyr 2019 - a oes gennych unrhyw beth mawr wedi'i gynllunio i roi gwybod i'ch gwirfoddolwyr pa mor arbennig ydynt? Trydarwch @VolWales neu @WCVACymru i roi gwybod i ni!

Mae Helplu yn gweithio yng Nghymru i wireddu potensial gwirfoddoli mewn iechyd a gofal cymdeithasol, yn unol â'n cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol Cymru Iachach. Maent yn chwilio am reolwyr gwirfoddol yng Nghymru sy'n barod i roi adborth ar ba mor dda y mae'r safonau drafft yn cyd-fynd â'u harferion sefydlu presennol. Ewch i'r wefan am ragor o wybodaeth.

Diolch am ddarllen, fe welwn ni chi wythnos nesaf.

Cyllid diweddaraf

Grantiau Canolfannau Cymunedol a Neuaddau Pentref Trusthouse Charitable Foundation

Mae cyllid ar gael ar gyfer prosiectau cyfalaf mewn canolfannau cymunedol yn yr ardaloedd trefol mwyaf difreintiedig a neuaddau pentref mewn ardaloedd anghysbell ac ardaloedd gwledig wedi'u hamddifadu yn economaidd.

Cronfa'r Ifanc Paul Hamlyn Foundation

Mae rhwng £10,000 a £60,000 o gyllid ar gael i fudiadau sy'n cefnogi pobl ifanc 14-25 oed.

Cronfa Gymunedol Viridor a Phrosiect Gwyrdd

Gall unrhyw fudiad neu grŵp, sydd â chyfansoddiad ffurfiol, nad ydynt yn cael eu rhedeg er mwyn elw, ac nad ydynt yn cael eu rheoli gan awdurdod lleol ymgeisio am gyllid ar gyfer mentrau cymdeithasol sy'n gweithredu o fewn rhanbarthau'r Llywodraeth Leol sy'n rhan o'r Prosiect Gwyrdd.

Cylch newydd Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy ar ddod

Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi i lansio'r rownd nesaf o'r Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy ar gyfer Ebrill 2020 ymlaen yn wythnos gyntaf Mehefin 2019.

Newyddion gwirfoddoli

Dim yn hir tan Wythnos Gwirfoddolwyr!

Mae cic gyntaf Wythnos Gwirfoddolwyr ar ddydd Sadwrn - amser gwych i ddangos i'ch gwirfoddolwyr pa mor gwerthfawr yr ydynt.

Profi safonau newydd ar gyfer cynefino gwirfoddolwyr mewn iechyd a gofal cymdeithasol

Mae safonau'n cael eu datblygu gan Helplu, a fydd yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog, gan y Brifysgol Agored. Rydym yn chwilio am reolwyr gwirfoddoli yng Nghymru sy'n barod i roi adborth ar i ba raddau y mae'r safonau drafft yn cyd-fynd â'u prosesau cynefino presennol.

Hyfforddiant a digwyddiadau

Ennyn Ymddiriedaeth – Hyfforddiant recriwtio ymddiriedolwyr

A allai ystod ehangach o ymddiriedolwyr â sgiliau proffesiynol, rhwydweithiau a phrofiadau eang mewn bywyd roi'r hwb i'ch elusen chi gyrraedd y lefel nesaf?

20 Mehefin 2019, Y Rhyl

Cynllunio'ch strategaeth ymgysylltu

Sicrhau'ch bod yn ymgysylltu mor effeithiol â phosib – dewch i ddysgu sut i ddatblygu strategaeth ymgysylltu.

12 Mehefin 2019, Caerdydd

Polisi a prosiectau

Dyfarnwyd Cyllid Pellach i Mesur y Mynydd Archwilio Profiadau Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

Mae Mesur y Mynydd (MyM) wedi derbyn dros £140,000 pellach gan Lywodraeth Cymru i ariannu ail gam ei waith arloesol sy'n deall profiadau pobl o ofal cymdeithasol yng Nghymru.

Byrddau Cenhadaeth Horizon Ewrop

Yn rhan o ddatblygiad parhaus o'r Rhaglen Horizon Ewrop, mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi galwad am geisiadau ar gyfer aelodau o'r pum Bwrdd Menter Horizon Ewrop.

Arolwg Sgiliau i Gyflogwyr yng Ngogledd Cymru 2019

Os ydych yng nghyflogwr sydd wedi'i leoli yn ardal Gogledd Cymru, dyma eich cyfle chi fel busnes yn yr ardal i rannu eich barn gyda'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru

Creu Gweledigaeth Gyda'n Gilydd – beth y gall mentrau cymdeithasol ei wneud i Gymru?

Mae ar Gymru angen sector mentrau cymdeithasol cryf er mwyn mynd i'r afael â heriau'r degawd nesaf a manteisio ar gyfleoedd newydd. Yr arolwg hwn yw'r cam cyntaf wrth geisio am eich help a'ch cyngor yn y broses hon.